

Rhan 1: Ffotograff



(Rickard, 2007)

Rhan 2: Nodweddion

Nodwedd 1 – Y llyn

Mae'r adran Mathemateg a Rhifedd o'r Cwricwlwm i Gymru 2022 (2020), yn annog plant i gael y cyfle i ddysgu am geometreg, sydd yn canolbwyntio ar berthnasoddedd sy'n ymwneud â siâp, gofod a safle, ac mae mesur yn canolbwyntio ar feintïoli ffenomena yn y byd ffisegol. Mae Cam gynnydd 1 o'r datganiad yn dweud dylai plant cael y cyfle i amcangyfrifo a chymharu gyda mesurau megis 'byrrach na..' a 'trymach na..' I gefnogi'r maes yma o ddysgu, gellid defnyddio'r i ymarfer mesur pellter gan ddefnyddio darnau rhydd. Gellir plant taflu cerrig o ymyl y llyn, er mwyn gweld pa mor bell mae'r adnoddau yn gallu mynd. Hefyd, gweithgaredd arall sydd yn cysylltu â hyn yw, gweld a gwrando ar y seiniau a siapau gwahanol mae'r adnoddau yn gwneud yn y dŵr. Mae'r gweithgaredd yma yn datblygu at fwy o brofiadau i arbrofid a thrafodaethau am y rhesymau am y siapau a seiniau gwahanol.

Mae'r adran Gwyddoniaeth a Thechnoleg o'r Cwricwlwm i Gymru 2022 (2020) yn bwriadu bod grymoedd ac egni yn darparu sail i blant i ddeall ein bydysawd. Mae Cam gynnydd 1 o'r datganiad, yn dweud dylai plant mynegi'r effaith y mae grymoedd yn ei gael ar y plant ac ar yr wrthrychau. Yna, mae Cam gynnydd 3 yn annog archwiliad at sut mae gweithredu grymoedd penodol yn gallu effeithio ar fudiant gwrthrych. I gefnogi'r maes yma o ddysgu, gellid darparu adnoddau darnau rhydd, fel cerrig, brigau, dail ac acorns ar ymyl y llyn er mwyn i blant chwilio ac i arbrofi a ydy'r adnoddau yn arnofio neu yn suddo o fewn y dŵr.

Dywed Teach Early Years (dim dyddiad) bod plant yn mwynhau chwarae gyda dŵr gan ei fod yn gallu darganfod mwy i ddysgu. Aeth Teach Early Years (dim dyddiad) bod gweithgareddau dŵr yn cynnwys arllwys a mesur, sydd yn dilyn a gofyn cwestiynau agored i blant. Mynna Teach Early Years (dim dyddiad) bod oedolion yn gallu cefnogi'r plant gan ddarparu adnoddau fel twndisau. Dywed Crowther a Wellhousen (2004) sydd wedi cael i ddyfynnu yn Bukola a Ijeoma (2020) bod gweithgareddau dŵr yn gallu cael i ddefnyddio i leddfu, ymlacio, dysgu, mwynhau a chynnal.

Nodwedd 2 – Coed, Mŵd, Cylch Bywyd

Mae'r Cwricwlwm i Gymru 2022 (2020) yn amlinellu pwysigrwydd i blant i ddysgu am y byd o'm gwmpas sydd yn llawn pethau byw sydd yn dibynnu ar ei gilydd i oroesi. Mae Cam gynnydd 1 yn annog plant i adnabod bod planhigion ac anifeiliaid yn bethau byw sy'n tyfu. Yna, mae Cam gynnydd 2 yn cynnig plant i archwilio'r berthynas rhwng pethau byw, eu cynefinoedd a'u cylchoedd bywyd. Yn ôl Hamilton Trust (dim dyddiad) mae dysgu am gylchoedd bywyd yn bwysig i blant er mwyn cryfhau eu dealltwriaeth o'r byd ac i helpu nhw i ddeall elfennau o fywyd fel marwolaeth a genedigaeth. Gellid ymarferwyr cefnogi'r plant gan gynnal gweithgaredd yn edrych am bethau byw yn yr ardal. Un esiampl yw edrych yn y llyn am benbyliaid, ac yna esbonio i'r plant y Cylch Bywyd llawn.

I gefnogi agwedd yma o ddysgu, gellid plant mynd am dro i edrych am drychfilod a natur gan ddefnyddio darpariaeth o chwyddwydrau, 'tweezers', bwced rhaw er mwyn edrych yn ddyfnach yn y mwd a thu ôl i goed. Gellir ymarferwyr paratoi taflen gwaith sydd ag lluniau o drychfilod a natur arni. Hefyd, ddarparu llyfrau natur i'r plant edych trwy er mwyn darganfod fwy o wybodaeth fel ble mae'r anifeiliaid yn byw a sut mae'r

cylchoedd bywyd yn datblygu. Mae'r gweithgaredd yma yn annog gweithio fel tîm, gan ymarfer meddwl ar y cyd parhaus gan ddatrys problemau a chefnogi a rhyngwthio gyda'i gilydd.

Mae'r adran Mathemateg a Rhifedd o'r Cwricwlwm i Gymru 2022 (2020) yn geisiadau bod plant yn defnyddio system rif i gynrychioli a chymharu'r perthnasoedd rhwng rhifau a meintiau. Yn Cam gynnydd 1 y datganiad, maent yn annog plant i ddefnyddio iaith fathemategol i ddisgrifio meintiau, i wneud amcangyfrifon a chymariaethau megis 'fwy na,' 'yn llai na,' neu 'yn hafal.' Hefyd, mae Cam gynnydd 1 yn awgrymu cael profiad o gyfrifo dilyniant o rifau, mewn gwahanol ffurfiau, gan gyfrif ymlaen ac yn ôl, a gan ddechrau ar wahanol rifau. Gweithgaredd pellach i gefnogi'r maes dysgu yma, yw grwpio casgliadau o'r dro natur a thrychfilod mewn grwpiau fel pethau mawr a phethau bach, neu mewn trefn fwyaf i leiaf.

Yn ôl Early Years Careers (2016) mae mŵd yn rhoi llawer o elfennau gwhannol o ddysgu i blant, gan ymestyn ei datblygiad o sgiliau creadiogl, dychymyglol a rhygweithio gyda eraill. Noda Early Years Careers (2016) bod rhai lleoliadau blynyddoedd cynnar yn darparu cegin mŵd i'r amgylchedd, gan darparu llwyau a powlenni. Mynna Natural Nature (2016) bod mŵd yn darparu cyfleoedd o ddysgu a chwarae sensorï. Dywed Sensory Trust (dim dyddiad) bod mŵd yn gallu darparu profiad synhwyrdd cyfoethog, trwy arogl, waed a seiniau. Aeth Natural Nature (2016) ymlaen i ddweud bod mŵd yn rhoi cyfleoedd ddysgu am mathemateg a gwyddoniaeth trwy gwneud cymysg o effallai dŵr, mŵd, tywod neu adnoddau naturiol eraill sydd o amgylch i wneud arbrofion natur. Noda Natural Nature (2016) bod mŵd hefyf yn cefnogi mathemateg plentyn gan cyfri adnoddau i wneud arbrawf cymysu, mesur dŵr a pwyso adnoddau.

Nodwedd 3 – Arwynebau anwastad

Mae'r adran Gwyddoniaeth a Thechnoleg o'r Cwricwlwm i Gymru 2022 (2020) yn hawlio'r pwysigrwydd o feddylfryd dylunio a pheirianeg sydd yn cynnig ffurfiau technegol a chreadigol i ddiwallu anghenion a dymuniadau cymdeithas. Mae Cam gynnydd 1 yn rhoi cyfle i blant i ddefnyddio offer syml, defnyddiau a chyfarpar yn ddiogel er mwyn adeiladu a dad-adeiladu. I gefnogi'r sgiliau gwyddoniaeth y plentyn, gellir darparu adnoddau fel blociau adeiladu, bwcedi, a pheli i rollo ar y tir i weld cyflymdra a chryfder a herio ei hun i adeiladu gan ddefnyddio sgiliau cydbwysu. Er

mwyn ehangu'r gweithgaredd yn fwy, gellid ymarferwyr darparu tarpolin a rhaffau er mwyn creu cysgod yn yr ardal gan ddefnyddio'r natur o gwmpas, sydd hefyd yn cefnogi gwaith tîm a meddwl ar y cyd yn barhaus.

Dywed Friendship Circle (2014) bod cerdded i fyny ac i lawr y bryn neu ar arwynebau anwastad yn helpu i adeiladu cryfder. Aeth Friendship Circle (2014) ymlaen i ddweud, wrth gerdded ac archwilio, mae yna synhwyrâu naturiol o amgylch yn gyson. Mynna Friendship Circle (2014) bod plant yn dysgu llawer pan roddir y rhyddid iddynt i archwilio'r byd o'u cwmpas. Yn ôl Child Development (dim dyddiad) mae tir anwastad yn helpu plant i wella a chryfhau ei gyd-bwyso a'i chyd-drefniant. Aeth Child Development (dim dyddiad) ymlaen i ddweud bod cyd-bwyso a chyd-drefniant yn bwysig i blant er mwyn iddyn nhw ymuno o fewn gweithgareddau chwaraeon. Myna Child Development (dim dyddiad) bod cyd-bwyso a chyd-drefniant da mewn plentyn yn llai tebygol o gael anaf oherwydd mae ganddyn nhw ymatebion osgo priodol pan mae angen.

Rhan 3: Asesiad Risg-Budd

Ardal/ Lleoliad	Y Llyn	Dyddiad	Mawrth 21ain, 2022
Aseswr:	Caitlin Davies	Dyddiad adolygu	Mawrth 21ain, 2023

GWEITHGAREDD	Sut fydd plant cael BUDD o'r weithgaredd?	Peryglon a risgiau posib	Pwy sydd mewn perygl (risg)?	RHAGOFALAU ar waith i leihau'r risg o anaf	Graddfa Risg: Isel/Canolig/Uchel
Teithio i'r ardal	Wrth cerdded i'r ardal bydd y plant yn cael profiad o diogelwch ar y heol, sef edrych i'r chwith a'r dde am unrhyw ceir a beiciau.	Traffig yn dod yn eich cyfeiriad. Croesi'r heol.	Plant ac Oedolion	Trafod ddioglewch ar y ffordd, gwenud hyn cyn adael y dosbarth. Ceiso gwlio fideo am ymddygiad addas ar diogelwch y ffordd. Gwranddo ar oedolion er mwyn adnabod pryd mae'n ddiogel i croesi'r heol.	

Gweithgareddau sydd yn cynnwys y llyn	Mae'n cryfhau sgiliau echddygol mawr, gan ddefnyddio cyhyrau i daflu cerrig i fesur pellter, a symud o amgylch i edrych am adnoddau. Mae'n annog plant i ddisgrifio'r llyn gan ddefnyddio geirfa mathemateg a gwyddonol, fel 'mae'n dyfnach', 'mae'n oer', 'mae'n boeth.' Mae'n annog sgiliau cymdeithasol a rhyngweithio gan weithio o fewn tîm i arbrofi.	Galli blant llithro ar dir neu gerrig gwlyb a chael cleisiau neu anafiadau eraill. Plant yn methu cam a dod i drafferth yn y dŵr, sydd yn achos eithafol ond yn gallu dilyn i hyperthermia.	Plant ac Oedolion	Trafod yn ystod amser cylch am beryglon posib o beth sydd yn gallu digwydd a'r esbonio'r canlyniad o'r perygl. Hefyd, trafod am ymddygiad o amgylch y llyn, sut maen nhw fod i ymddwyn. Bydd oedolyn yn mynd a bocs cymorth cyntaf gyda nhw a'r y trip, os mae unrhyw anaf yn digwydd. Mi fydd y person sydd a hyfforddiant cymorth cyntaf yn cyfrifol am y bocs.	
--	--	---	--------------------------	---	--

GWEITHGAREDD	Sut fydd plant cael BUDD o'r weithgaredd?	Peryglon a risgiau posib	Pwy sydd mewn perygl (risg)?	RHAGOFALAU ar waith i leihau'r risg o anaf	Graddfa Risg: Isel/Canolig/Uchel
	Mae'n weithgaredd sy'n cefnogi synhwyrdd plentyn.				

GWEITHGAREDD	Sut fydd plant cael BUDD o'r weithgaredd?	Peryglon a risgiau posib	Pwy sydd mewn perygl (risg)?	RHAGOFALAU ar waith i leihau'r risg o anaf	Graddfa Risg: Isel/Canolig/Uchel
Cerdded ar dir anwastad.	Mae cerdded yn hybu annibyniaeth a rhyddfrait plentyn. Mae plant yn dechrau fod yn ymwybodol o ei gyrff, ac adnabod beth maent yn gallu gwneud. Mae cerdded yn datblygu sgiliau corfforol a sgiliau echddygol bras plentyn, fel cydbwyso.	Gallai plant cwmpo, baglu, a chael cleisiau neu anafiadau eraill.	Plant ac oedolion	Yn ystod yr wythnos, gallid cynnal sesiynau ymarfer corff er gyfer cynyddu ffitrwydd y plant. Trwy gydol y sesiynau yma, gallent wneud gweithgareddau cydbwyso, er mwyn i blant ymarfer cydbwyso ar adnoddau ymarfer corff. Bydd oedolyn yn mynd a bocs cymorth cyntaf gyda nhw a'r y trip, os mae unrhyw anaf yn digwydd. Mi fydd y person sydd a hyfforddiant cymorth cyntaf yn cyfrifol am y bocs.	

Plant yn mynd a'r helfa trychfilod a natur i edrych am drychfilod, ac adnoddau naturiol fel cerrig, acorns, a brigau.	Mae'r plant yn cael i gyfle i ddysgu am y byd natur, a sut mae pethau yn newid a chreu perthnasoedd. Mae'r plant yn dysgu am gylchoedd bywyd trychfilod maen nhw'n dod o hyd i, a'i chefnidiroedd. Mae plant yn ymarfer sgiliau echddygol manwl gan ddefnyddio offer fel chwyddwydr a tweezers. Ymarfer sgiliau echddygol bras a	I fod yn ymwybodol o blanhigion gwenwynig neu lidus. Gallai canghennau isel achosi anafiadau i'r llygaid neu'r pen. Fel anafiadau fod; grafiadau, heintiau, brathiadau a phigiadau. Plant ac oedolion yn gallu cael	Plant ac oedolion	Trafod gyda'r plant yn amser cylch am y pethau bydd y plant yn dod o hyd i, pethau newydd a chyfarwydd. Hefyd, trafod dillad addas am y trip, sef llawes. trowus hir a esgidiau addas. Trafod am ymddygiad priodol, fel dim rhedeg o amygloch. Angen rhoi reolau i'r plant am ffiniau, ble gallant fynd heb oedolyn ac ble na allant fynd. Hefyd, gwenud y plant yn ymwybodol o ddiethriaid, felly trafod i'r plant am ddim i siarad a phobol nad ydynt yn ei wybod. Hefyd, trafod am beth nad ydynt yn gallu casglu. I gefnogi'r drafodaeth yma, gallent chwarae gêm yn y dosbarth o chwilio am adnoddau sydd ar restr. Gwneud y plant yn ymwybodol am lendid, felly dim byd yn geg, a golchi dwylo a'r ôl y gweithgaredd.	
--	--	--	--------------------------	---	--

GWEITHGAREDD	Sut fydd plant cael BUDD o'r weithgaredd?	Peryglon a risgiau posib	Pwy sydd mewn perygl (risg)?	RHAGOFALAU ar waith i leihau'r risg o anaf	Graddfa Risg: Isel/Canolig/Uchel
	corffol gan symud o amgylch gan gerdded, sgipio, neidio ac ymestyn.	alergeddau i anifeiliaid neu blanhigion. Gallai plant crwydro allan o'r ardal, neu fynd ar goll. Hefyd, gallai pobl dieithryn dod i'r ardal.		Bydd oedolyn yn mynd a bocs cymorth cyntaf gyda nhw a'r y trip, os mae unrhyw anaf yn digwydd. Mi fydd y person sydd a hyfforddiant cymorth cyntaf yn cyfrifol am y bocs.	

Gweithgareddau tu allan, mewn amodau tywydd gwahanol	Dysgu am sut mae'r tywydd yn newid, a sut mae'r gwahanol yn cyfuno i wneud rhywbeth arall, fel galw a haul yn gwneud enfys. Dechrau defnyddio geiriau i ddisgrifio'r tywydd, fel poeth, oer neu wlyb.	Gallai fod perygl tywydd, sydd yn achosi coed i gwympo, canghennau i gwympo. Gall hyn achosi anafiadau i'r pen, sydd yn anafiadau sy'n gallu newid bywyd neu farwolaeth. Tymheredd yn newid, gallai plant for yn rhy oer neu yn rhy boeth. Mewn amgylchiadau eithafol gall hyn	Plant ac oedolion	Angen monitro'r tywydd gyda'r swyddfa tywydd, gyn mynd allan. Cynnal trafodaeth yn ystod amser cylch neu wneud gweithgaredd am dasg ffocws am ba fath o wisg mae angen gwisgo am amodau tywydd gwahanol, esgidiau glaw neu addas, côt, het a scarf. Cynnal gweithgaredd gan ddefnyddio dolis ar gyfer ymarfer rhoi eli haul arno.	
---	---	--	--------------------------	--	--

GWEITHGAREDD	Sut fydd plant cael BUDD o'r weithgaredd?	Peryglon a risgiau posib	Pwy sydd mewn perygl (risg)?	RHAGOFALAU ar waith i leihau'r risg o anaf	Graddfa Risg: Isel/Canolig/Uchel
		dilyni hyperthermia neu hypothermia. Plant yn oer yn gallu dilyn iddyn nhw fod yn anghyfforddus yn gwisgo gwisg wlyb. Rhy boeth yn gallu dilyn i losg haul.			

Archwilio ddeunyddiau gwahanol	am Archwilio am adnoddau ei hun i ddysgu mwy am y byd natur a'r byd o'n hamgylch. Defnyddio dychymyg wrth edrych am adnoddau er mwyn creu pethau allan o'r adnoddau.	Wrth edrych o amgylch am adnoddau, gallai plant faglu, cwmpo neu gleisiau. Os mae'r tywydd wedi bod yn wlyb, fe gall y llawr dal i fod yn wlyb, felly mae yna risg o lithro. I fod yn ymwybodol o blanhigion gwenwynig neu lidus.	Plant ac oedolion	Trafod am sut ymddygiad addas am y lleoliad, fel cerdded yn unig os mae'r tir yn wlyb. Angen rhoi rheolau i'r plant am ffiniau, ble gallant fynd heb oedolyn a ble na allant fynd. Hefyd, gwneud y plant yn ymwybodol o ddieithriaid, felly trafod i'r plant am ddim i siarad â phobol nad ydynt yn ei wybod. Hefyd, trafod am beth nad ydynt yn gallu casglu. I gefnogi'r drafodaeth yma, gallent chwarae gêm yn y dosbarth o chwilio am adnoddau sydd ar restr. Gwneud y plant yn ymwybodol am lendid, felyn dim byd yn geg, a golchi dwylo a'r ôl y gweithgaredd.	
---	---	---	------------------------------	--	--

		Gallai canghennau isel achosi anafiadau i'r llygaid neu'r pen. Fel anafiadau fod; grafiadau, heintiau, brathiadau a phigiadau. Plant ac oedolion yn gallu cael alergeddau i anifeiliaid neu blanhigion. Gallai plant brwydo allan o'r		Bydd oedolyn yn mynd a bocs cymorth cyntaf gyda nhw a'r y trip, os mae unrhyw anaf yn digwydd. Mi fydd y person sydd a hyfforddiant cymorth cyntaf yn cyfrifol am y bocs.	
--	--	--	--	--	--

GWEITHGAREDD	Sut fydd plant cael BUDD o'r weithgaredd?	Peryglon a risgiau posib	Pwy sydd mewn perygl (risg)?	RHAGOFALAU ar waith i leihau'r risg o anaf	Graddfa Risg: Isel/Canolig/Uchel
		ardal, neu fynd ar goll. Hefyd, gallai pobl dieithryn dod i'r ardal.			
Isel		Canolig		Uchel	

Rhan 4: Ysgrifennu Academaidd

Yn ôl White (2011) mae chwarae a rhyngweithio yn yr awyr agored yn cwrdd â'r ffordd mae mwy mwyafrif o blant eisiau fod, ymddwyn, datblygu a dysgu. Dywed West Sussex (2020) rôl yr oedolyn trwy amgylcheddau dysgu yw arsylwi'r plant i sicrhau bod yr ardal dysgu yn cefnogi gwahanol anghenion plentyn. Yn ogystal â hyn, aeth West Sussex (2020) ymlaen i ddweud bod oedolyn yna i greu perthynas cryf efo plant, ac i arwain diddordebau plant i gefnogi nhw i fod yn ddysgwyr annibynnol. Yn debyg i West Sussex (2020), mae Teach Early Years (dim dyddiad) yn dweud bod oedolion yn datblygu amgylchedd ysgogol sydd ag ardaloedd cyfoethog o ddarpariaeth, fel mathemateg a gwyddoniaeth. Mae hyn yn cysylltu â damcaniaeth sgaffaldiau Vygotsky, sydd hefyd yn cael i gefnogi gan Bruner. Yn ôl Indeed (2021) mae'r dull sgaffaldiau o ddysgu yn helpu dysgwyr i ddeall cynnwys addysgol gan weithio wrth ochr athrawon neu unigolyn sydd yn fwy gwybodus am y defnydd. Dywed McLoed (2014) bod Vygotsky yn awgrymu bod datblygiad plant yn dibynnu ar gymdeithasu gyda phobl. Mynna Nursery World (2002) bod rôl yr oedolyn yw adnabod dealltwriaeth, ei gampau ac adnabod y camau nesaf yn ddatblygiad y plentyn. Aeth Nursery World (2002) ymlaen i ddweud bod ymarferwyr yn gweithio'n agos gyda'r plentyn gan gynllunio gweithgareddau i weld ei champau datblygu yn ei addysg.

Mynna Bruce (2012) bod plant yn dysgu trwy fod yn actif, a datblygu sgiliau echddygol mawr a bras. Aeth Bruce (2012) ymlaen i ddweud bod plant angen cael lleoliad tu gallan sydd yn cynnwys pyllau, dail a mwd i ddeall y gweithrediad. Gan gofio hyn, roedd damcaniaeth Froebel yn annog y pwysigrwydd o ddysgu tu allan. Esbonia Tovey (2016) bod Froebel wedi creu 'Kindergarten' cyntaf, er mwyn i blant ifanc i dyfu a datblygu yn ffordd ei hun, creda Froebel bod plant yn dysgu'n gorau trwy ymweithredu, siarad a chwarae. Cytuna Literacy Trust (2021) bod dysgu tu allan yn cryfhau hyder, sgiliau cymdeithasu, cyfathrebu, cymhelliad, sgiliau corfforol a dealltwriaeth a gwybodaeth. Uwchafbwyntiau Early Years Matters (2016) bod amgylcheddau dysgu tu allan yn datblygu ymwybyddiaeth o natur a deall y pwysigrwydd o ofalu am blanhigion, anifeiliaid a thrychfilod eraill. Mae hefyd yn datblygu sgiliau personol, cymdeithasol a dealltwriaeth y byd (Early Years Matters, 2016). Yn ôl Charles a Wheeler (2012), mae natur yn datblygu iechyd meddwl a lles plentyn, gan fod ardaloedd tu allan gallu fod yn fwy ymlaciol na ardaloedd tu fewn.

Mynna Gill (2010) bod dysgu tu allan yn annog plant i asesu risgiau ei hun, sydd yn brofiad o ryddfrait ac i gymryd fwy o gyfrifoldeb am ddiogelwch a lles ei hun. Dywed Chwarae Cymru (dim dyddiad) bod plant yn cymryd risg yn manteisio datblygiad corfforol ac emosiynol, herio eu hunain mewn ffurfiau newydd a chael profiad o ganlyniad o weithredoedd eu hunain. Yn ôl Early Eaducation (dim dyddiad) dyled oedolion anelu at alluogi plant i gymryd risg, nid eu hatal nhw, ond hefyd ddim i roi'r plant mewn perygl gwirioneddol. Dywed Early Eaducation (dim dyddiad) bod hi'n hanfodol i oedolion i werthuso peryglon wrth ystyried y tebygolrwydd o anaf difrifol a'r hyn y bydd plant yn ei eni o gymryd rhan yn y gweithgaredd. Dywed Early Years Resources (2018) bod chwarae risg yn ehangu sgiliau plant, fel maen nhw'n dringo'n uwch, ymestyn a chydbwysu.

I gefnogi Mathemateg a Gwyddoniaeth i blant, gellid ymarferwyr darparu darnau rhydd i blant i arbrofi. Yn ôl Community Playthings (2015) darnau rhydd yw adnoddau sydd wedi'u darganfod, pethau mae plant yn gallu symud, llawdrin, rheoli a'u newid wrth chwarae neu ddysgu. Mae darnau rhydd yn rhoi cyfleoedd diddiwedd i blant (Community Playthings, 2015). Yn ôl Community Playthings (2020) mae darnau rhydd yn rhoi llawer o gyfleoedd i fathemateg, fel dosbarthu, didoli, chyfri a chymesuredd. Dywed Early Impact (dim dyddiad) bod llawer o sgiliau sy'n ganolog i wyddoniaeth yn cael i feithrin gan blant yn chwarae â darnau rhydd, sgiliau fel; ymchwilio, archwilio, adeiladau a dadadeiladu syniadau ac ymgysylltu â'r byd o'u cwmpas. Noda Early Impact (dim dyddiad) rhai cyfleoedd gwyddoniaeth trwy ddefnyddio darnau rhydd, cyfleoedd fel; arnofio a suddo a chysgodion. Creda Bruner mewn dysgu darganfod, sydd yn seiliedig ar ymholiad a dysgu adeiladol, sydd yna yn dilyn i ddatrys problemau (learning theories, dim dyddiad). Dywed Flannigan a Dietze (2017) bod darnau rhydd yn annog chwilyfrydedd plentyn dydd yn cefnogi damcaniaeth dysgu Bruner. Mae darnau rhydd yn rhoi rhyddfrait i blant i ddatblygu ei chwarae a dysgu yn seiliedig ar syniadau a thargedau nhw (Flannigan a Dietze, 2017). Aeth Flannigan a Dietze (2017) ymlaen i ddweud, bod darnau rhydd yn rhoi 'affordance' i blant, sydd yn dangos i addysgwyr sut mae darnau rhydd yn cefnogi plant yn yr awyr agored i greu profiad chwarae cyfoethog ac amrywiol.

Dywed Siencyn (2010) bod athroniaeth Reggio Emilia yn dangos pwysigrwydd o chwilyfrydedd yn blant ifanc. Yn ôl Wood *et al.* (2015) mae athroniaeth Reggio Emilia yn ffocysu ar y plant, dim ar athrawon. Aeth Wood *et al.* (2015) ymlaen i ddweud bod

plant yn cael i weld yn alluog, hunanddibyniaeth, deallus, chwilfrydig a chreadigol. Mae'r athroniaeth Reggio Emilia yn gweld y dosbarth fel trydydd athro neu athrawes, gan ei fod yn annog ymarferwyr i roi cynnig a gofal wrth greu a sefydlu'r amgylchedd yr ystafell dosbarth a'r deunyddiau a darparwyd (Wood *et al.*, 2015). Cytuna Stone (2012) bod dysgu yn benagored ac yn cael i arwain gan weithgareddau'r plant. Dywed Stone (2012) bod rôl yr oedolyn yn Reggio Emilia yw darparu sgiliau ymarferol a galluoedd cyfathrebu er mwyn i blant dilyn diddordebau yn ardaloedd amrywiol o weithgaredd diwylliannol. Yn ôl Community Playthings (2018) mae Montessori hefyd yn credu'n gryf bod chwilfrydedd plentyn yn cael i ddatblygu trwy natur a chael profiad dyddiol o ddysgu tu allan gyda strwythur a phwrpas. Aeth Community Playthings (2018) ymlaen i ddweud bod Montessori yn annog mathemateg yn yr awyr agored gan fod llawer o gyfleoedd o fathemateg; hynny yw; siapau, cymesuredd, lliw, dosbarthu, trefnu a phatrymau.

Un agwedd arall mae oedolion yn gallu helpu cefnogi plant, yw meddwl ar y cyd yn barhaus. Yn ôl EYCO Essex (dim dyddiad) meddwl ar y cyd parhaus yw pryd mae dau neu fwy o unigolyn yn gweithio gyda'i gilydd mewn ffordd addysgol, i ddatrys problemau a gwerthuso gweithgaredd. Dywed EYCO Essex (dim dyddiad) bod ymarferwyr yn gallu adnabod cyswllt, a bod yr ymarferwyr a'r plentyn yn ddyweddi mewn gweithgaredd neu drafodaeth. Mae hyn yn rhoi profiadau pwysig i ymarferwyr i weld y byd trwy lygaid plentyn (EYCO Essex, dim dyddiad). Mae hyn hefyd yn rhoi cyfle i ymarferwyr i arsylwi sgema mewn plentyn, ac yn ôl Professional association for childcare and early years (PACEY) (dim dyddiad) mae sgema yn dangos diddordebau plentyn, Dywed PACEY (dim dyddiad) bod sgema yn galluogi plant i adnabod diddordebau plentyn a ffordd nhw o feddwl. Cytuna Community Connections Solutions Australia Inc (2021) trwy feddwl ar y cyd parhaus, mae plant ac oedolion yn datblygu gwybodaeth ac ystyr gyda'i gilydd. Yn ôl Twinkl (2021) mae oedolion gallu cefnogi meddwl ar y cyd parhaus, trwy ofyn cwestiynau penagored, darparu adborth i blant yn ystod gweithgareddau a modelu wrth feddwl yn barhaus. Mae Twinkl (2021) yn meddwl yn gryf am barchu penderfyniadau a dewisiadau plentyn ac annog nhw i ehangu. Dywed Twinkl (dim dyddiad) bod cwestiynau penagored yn galluogi plant i ymateb mewn manyldeb, sydd yn cynnwys teimladau, ymddygiadau a trwy roi adborth. Awgryma Quigley *et al.* (2018) bod meddwl ar y cyd parhaus hefyd yn darparu sgiliau metawybyddol pan mae addysgwyr yn sylwi yn ystod rhyngweithiad. Mynna Brodie

(2014) bod hi'n bwysig i blant i ddatblygu i siarad yn metawybyddol, felly maent yn ymwybodol o'u proses feddwl eu hunain a sut y gallent gymhwyso hyn mewn mannau eraill. Aeth Brodie (2014) ymlaen i ddweud, gan arddangos siarad metawybyddol, mae ymarferwyr yn gallu cefnogi plant i ddeall ei phroses meddwl.

Rôl arall sydd ag oedolion yw arsylwi plant. Yn ôl PACEY (2016) mae arsylwi yn rhan hanfodol o ymarfer sydd yn cefnogi ymarferwyr i ddeall anghenion unigolyn sydd yn ei gofal. Aeth PACEY (2016) ymlaen i ddweud bod arsylwi yn galluogi ymarferwyr i ddysgu fwy am y plentyn, beth maen nhw hoffi a ddim yn hoffi a beth yw ei anghenion am ei ddysgu a datblygiad. Cytuna Early Years Matters (dim dyddiad) a PACEY (2016), bod arsylwadau yn hanfodol, oherwydd mae bob plentyn gyda galluoedd unigryw, diddordebau a thalent. Mynna Neaum (2016) bod arsylwi yn hanfodol er mwyn i'r lleoliad i redeg yn llyfn, er enghraifft, arsylwi datblygiad plentyn ond hefyd os mae plentyn yn cwmpo, mae angen i'r ymarferwyr i ddilyn y trefniadau cywir sydd y gyfraith. Dywed Palaiologou (2012) bod yr oedolyn a rôl bwysig, gan fod dysgu ddim gallu cymryd lle yn yr amgylchedd heb gyngor oedolyn. Mynna Palaiologou (2012) bod hyn yn cysylltu â theori seicoleg wybyddol, rhyngweithiad gyda'r amgylchedd a rôl yr oedolyn fel person mwy gwybodus sef dulliau Piaget a Vygotsky. Aeth Palaiologou (2012) ymlaen i ddweud bod y rhain yn rhan ganolog o addysg ble mae plant yn datblygu'n gorfforol, emosiynol a sgiliau cymdeithasol a gwybyddol fel datrys problemau a mathemateg. Mae profiadau cynnar plentyn yn cael i ehangu gan rhyngweithiad gydag oedolion (Palaiologou, 2012).

Rhestr Cyferinodi

Brodie, k. (2014) *Sustained shared thinking in the early years: Linking theory to practice*. Routledge; 2014 May 30. (Darllenwyd: 27/03/2022)

Bruce, T (2012) *Early childhood education*. Hachetter Uk. (Darllenwyd 24/03/2022)

Bukola, A. a Ijeoma, E. (2020) Water and Sand Play: More than Just Fun for Pre-school Children. (Darllenwyd: 14/04/2022)

Community Connections Solutions Australia Inc (2021) *What is Sustained shared thinking?* Ar gael o: <https://www.acecqa.gov.au/sites/default/files/2021-01/WhatIsSustainedSharedThinking.PDF> (Darllenwyd: 27/03/2022)

Community Playthings (2015) *Loose Parts: Inspiring Play in Young Children*. Ar gael o: <https://www.communityplaythings.com/resources/articles/2015/loose-parts#:~:text=Loose%20parts%20lend%20themselves%20to%20classification.%20The%20concept,higher%20mathematical%20skills%20that%20loose%20parts%20readily%20support.> (Darllenwyd 24/03/22)

Community Playthings (2018) *Maths in the great outdoors*. Ar gael o: <https://www.communityplaythings.co.uk/learning-library/articles/maths-in-the-great-outdoors#:~:text=Exploring%20mathematics%20outdoors%20is%20beneficial%20as%20it%20will%3A,Contribute%20to%20children%E2%80%99s%20self-image%20of%20themselves%20as%20mathematicians?msclkid=d7ef31a7c66311ecbf88152d5e5d7dab> (Darllenwyd 27/04/22)

Community Playthings (2020) *Math Play with Loose Parts*. Ar gael o: <https://www.communityplaythings.com/resources/articles/2020/math-play-with-loose-parts#:~:text=Natural%20loose%20parts%20can%20be%20used%20in%20a,be%20measured%20and%20compared%20by%20weight%20or%20size.> (Darllenwyd: 26/03/2022)

Charles, C. and Wheeler, K. (2012) 'Children & nature worldwide: An exploration of children's experiences of the outdoors and nature with associated risks and benefits. Retrieved February, 1, p.2013. Ar gael o: <https://static.spacecrafted.com/a60a6756a1124f3b8aa05f622e7ba46e/r/ad128d0cb6>

[1e49de836c0ab46715578d/1/d19248adc8ab4bf182a7e448fb72001b.pdf](https://childdevelopment.com.au/areas-of-concern/gross-motor-skills/balance-coordination/)

(Darllenwyd: 30/03/2022)

Child Development (dim dyddiad) *Balance & Coordination*. Ar gael o: <https://childdevelopment.com.au/areas-of-concern/gross-motor-skills/balance-coordination/> (Darllenwyd 15/04/22)

Chwarae Cymru (dim dyddiad) *Play and Challenge*. Ar gael o: <https://playwales.org.uk/eng/playandchallenge> (Darllenwyd: 26/03/2022)

Early Education (dim dyddiad) *Taking risks in play*. Ar gael o: <https://early-education.org.uk/taking-risks-in-play/> (Darllenwyd: 27/03/2022)

Early Impact (dim dyddiad) *16 Science Loose Parts Play Ideas*. Ar gael o: <https://earlyimpactlearning.com/16-science-loose-parts-play-ideas/> (Darllenwyd: 26/03/2022)

Early Years Careers (2016) *Why mud play should be encouraged*. Ar gael o: <https://www.earlyyears-careers.com/eyc/learning-and-development/why-mud-play-should-be-encouraged/#:~:text=%205%20reasons%20why%20Mud%20Play%20is%20great,as%20they%20are%20thinking%20of%20new...%20More%20> (Darllenwyd 15/04/22)

Early Years Matters (2016) *Outdoor Learning Matters in the Early Years*. Ar gael o: <https://www.earlyyearsmatters.co.uk/outdoor-learning-in-the-early-years-matters/> (Darllenwyd: 25/03/2022)

Early Years Matters (dim dyddiad) *Observation, Assessment and Planning*. Ar gael o: <https://www.earlyyearsmatters.co.uk/eyfs/a-unique-child/planning/> (Darllenwyd: 27/03/2022)

Early Years Resources (2018) *The Importance of Risky Play in Childhood*. Ar gael o: <https://www.earlyyearsresources.co.uk/blog/2018/10/risky-play-importance/> (Darllenwyd: 27/03/2022)

ECYCP Essex (dim dyddiad) *Understanding Sustained Shared Thinking*. Ar gael o: <https://eycp.essex.gov.uk/media/1181/positiverelationships-understanding-sustained-shared-thinking.pdf> (Darllenwyd: 27/03/2022)

Flannigan, C. a Dietze, B. (2017) 'Children, outdoor play, and loose parts,' *Journal of Childhood Studies*, pp.53-60. (Darllenwyd: 26/03/2022)

Friendship Circle (2014) *10 Outdoor Activities that Enhance Gross Motor Skills*. Ar gael o: <https://www.friendshipcircle.org/blog/2014/08/13/10-outdoor-activities-that-enhance-gross-motor-skills/#:~:text=Walking%20up%20and%20down%20hills%20and%20over%20uneven,a%20little%20elevation%20will%20help%20build%20optimal%20strength>.

(Darllenwyd 15/04/22)

Gill, T. (2010) 'Nothing Ventures...Balancing Risks and Benefits in the Outdoors,' *UK: English Outdoor Council*. Ar gael o: <https://static.real-adventure.co.uk/downloads/Cumbria-Grid-For-Learning.pdf> (Darllenwyd: 26/03/2022)

Hamilton Trust (dim dyddiad) *Learning about Life Cycles*. Ar gael o: <https://www.hamilton-trust.org.uk/blog/learning-about-life-cycles/> (Darllenwyd 15/04/22)

Indeed (2021) *Vygotsky Scaffolding: What It Is and How To Use It*. Ar gael o: <https://www.indeed.com/career-advice/career-development/vygotsky-scaffolding> (Darllenwyd 25/03/22)

Learning Theories (dim dyddiad) *Discovery Learning (Bruner)*. Ar gael o: <https://learning-theories.com/discovery-learning-bruner.html> (Darllenwyd: 26/03/2022)

Literacy Trust (2021) *The benefits of outdoor learning in the early years*. Ar gael o: <https://literacytrust.org.uk/blog/the-benefits-of-outdoor-learning-in-the-early-years/> (Darllenwyd 24/03/22)

Llywodraeth Cymru (2020) *Cwricwlwm i Gymru 2022*. Ar gael o: <https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-i-gymru> (18/03/2022)

McLeod, S.A. (2014) *Lev vygotsky*. Ar gael o: <https://sites.google.com/site/pllearningcontent/overview-theorists/lev-semyonovich-vygotsky> (Darllenwyd: 25/03/2022)

Neaum, S. (2016) 'Observing and assessing children's learning and development.' *London, Sage*. (Darllenwyd 27/04/22)

Nursery World (2002) *The practitioner role*. Ar gael o: <https://www.nurseryworld.co.uk/news/article/the-practitioner-role?msclkid=9e37212fc66011ecae622eab596f80ae> (Darllenwyd 27/04/22)

Palaiologou, I. (2012) *Child Observation for the early years* (Vol. 1408). Sage. (Darllenwyd: 28/03/2022)

Professional association for childcare and early years (2016) *Child observations and learning journeys*. Ar gael o: [https://www.pacey.org.uk/Pacey/media/Website-files/PACEY%20member%20practice%20guides%20\(PDFs\)/PG05-Child-observations-learning-journeys.pdf](https://www.pacey.org.uk/Pacey/media/Website-files/PACEY%20member%20practice%20guides%20(PDFs)/PG05-Child-observations-learning-journeys.pdf) (Darllenwyd: 27/03/2022)

Professional association for childcare and early years (dim dyddiad) Schemas. Ar gael o: <https://www.pacey.org.uk/working-in-childcare/spotlight-on/schemas/> (Darllenwyd: 27/03/2022)

Quigley, A. *et al.* (2018) 'Metacognition and self-regulated learning: guidance report'. (Darllenwyd: 27/03/2022)

Rickard, T (2007) Water towers at Llyn Llech Owain. Ar gael o: <https://www.geograph.org.uk/photo/539863> (Mynediad: 27/03/2022)

Sensory Trust (dim dyddiad) *Mud Painting*. Ar gael o: <https://www.sensorytrust.org.uk/uploads/documents/mud-painting-sensory-trust.pdf> (Darllenwyd 15/04/22)

Siencyn. S.W. (2010) *Y Cyfnod Sylfaen 3 -7 oed, Athroniaeth, Ymchwil ac Ymarfer*. Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant. (Darllenwyd: 26/03/2022)

Stone, J.E. (2012) 'A Vygotskian commentary on the Reggio Emilia approach.' *Contemporary Issues in Early Childhood*, 13(4), pp.276-289. (Darllenwyd: 26/03/2022)

Teach Early Years (dim dyddiad) *Getting Hands-on with Maths*. Ar gael o: <https://www.teachearlyyears.com/learning-and-development/view/getting-hands-on-with-maths#:~:text=Sand%20and%20water%20are%20wonderful%20mediums%20to%20use,we%20forget%2C%20it%20can%20be%20lots%20of%20fun.> (Darllenwyd: 01/04/2022)

Teach Early Years (dim dyddiad) *Taking Maths Outdoors*. Ar gael o: <https://www.teachearlyyears.com/learning-and-development/view/taking-maths-outdoors> (Darllenwyd 22/03/22)

Tovey, H (2016) *Bringing the Froebel Approach to your Early Years Practice*. Routledge (Darllenwyd 24/03/2022)

Twinkl (2021) *Sustained Shared Thinking*. Ar gael o: <https://www.twinkl.co.uk/blog/sustained-shared-thinking#:~:text=%20There%20are%20many%20ways%20to%20support%20sustained,thinking%204%20offering%20an%20alternative%20viewpoint%20More%20> (Darllenwyd: 27/03/2022)

Twinkl (dim dyddiad) *Open ended questions for children's play*. Ar gael o: <https://www.twinkl.co.uk/resource/ca-c-61-open-ended-questions-display-poster#:~:text=Being%20asked%20questions%20within%20open-ended%20activities%20in%20early,the%20shyest%20of%20children%20chatting%20away%20and%20sharing>. (Darllenwyd: 27/03/2022)

West Sussex (2020) *Adult role throughout the Learning Environment*. Ar gael o: https://www.westsussex.gov.uk/media/5550/adult_role_learning_environment.pdf (Darllenwyd 22/03/22)

White, J (2011) *Outdoor provsion in the early years*. Sage (Darllenwyd 22/03/22)

Wood, J et.al. (2015) 'The move: Reggio Emilia-inspired teaching.' *Complicity: An International Journal of Complexity and Education*, 12(1). (Darllenwyd: 26/03/2022)